BBC

# BBC Employee Personal Property Policy

*Note: the Welsh translation of this Policy can be found below.*

This policy forms part of the contract of employment that applies to BBC employees in the UK on Grades 2-11, and is an agreed statement between the BBC and recognised joint unions which may only be varied by joint negotiation at the National Joint Council.

## Definition

This policy prescribes the circumstances under which the BBC will compensate for the loss, theft or damage of an employee's personal property.

## Principles

- Employees are responsible for the care and safekeeping of their personal property during the course of employment.
- Employees are expected to make their own insurance arrangements for their personal property.
- Employees must keep personal property brought onto BBC premises in a safe and secure place. Where facilities are provided, personal property must be locked away.
- The BBC accepts no responsibility for loss of or damage to cars, motorcycles, scooters or bicycles (or their contents) brought onto BBC premises, whether they are left in car parks, cycles racks or otherwise.
- Compensation as outlined in the circumstances prescribed by 1-6 below will not exceed £500 for any one incident of loss, theft or damage except while travelling on duty involving an overnight stay where the limit will be £2000.
- Loss or damage to an employee's personal property due to riot and civil commotion on international assignments are covered by the separate provisions detailed in this policy.
- Payment for items lost or destroyed will be based on the estimated value of the property, not its new replacement cost.
- An employee is not entitled to compensation under this policy where a claim is dealt with under a personal insurance policy.
- Any payment made is on an ex gratia basis and does not signify any admission of liability by the BBC.

## Compensation

The BBC will compensate an employee for lost, stolen or damaged personal property that belongs solely to the employee in the following circumstances only:-

### 1. Theft, burglary or fire while on duty

Provided that adequate precautions for safeguarding the property had been taken by the employee. This provisions applies anywhere in the world.

### 2. Damage due to accidents in the course of duty

Provided that the damage could not have been avoided by the employee taking reasonable care and was caused by circumstances which were clearly exceptional or by negligence on behalf of the BBC. This provisions applies anywhere in the world.

## 3. Loss or damage occurring in BBC sleeping accommodation

Provided there has been no negligence on the part of the employee.

## 4. Articles held in official cloakrooms

Although the BBC accepts no responsibility for the loss of or damage to articles deposited in official cloakrooms, it will nevertheless consider a request for compensation arising out of such loss or damage.

## 5. Tools of the trade

The BBC will compensate employees for loss of or damage to any personal tools of the trade whilst on BBC premises provided they were properly stored when not in use and that there was no negligence on the part of the employee.

## 6. Property lent to the BBC

The BBC will compensate employees for the loss or damage to any personally owned properties lent to it following a specific written request from the BBC.

## Making a claim

This is a department funded scheme and managers are responsible for authorising claims made by employees.

Employees should complete the **Claim form for lost, stolen or damaged property** and submit it to their manager.

Before agreeing compensation managers should be satisfied of the following:-

- It was reasonable for the employee to have had the item in question at work
- All reasonable precautions to secure the safety of the property were taken by the employee
- It is appropriate for the employee to claim against the BBC rather than their own insurance policy.

When assessing compensation, managers have the discretion to take into account contributory negligence.

## Loss or damage to personal property due to riot and civil commotion on international assignments

The BBC will compensate employees against loss of damage to personal property directly due to riot and civil commotion whilst assigned to a post outside the UK, where the government of the country in which the incident occurs does not pay compensation. If the government of the country pays compensation but the amount is less than that which the BBC would pay, the BBC will pay the difference between the two amounts.

Claims can also include the personal effects of the employee's family if their travel to the country in question has been paid for by the BBC and household goods where the cost of transporting them has been paid for by the BBC. This can include a car where the BBC has previously determined that a car is necessary for the employee's post in the country concerned.

Employees are expected to claim against their own personal insurance in the first instance and financial assistance is available when employees have been unable to obtain insurance cover at reasonable cost or the operation of an exclusion clause in respect of riot and civil commotion prevents them from bringing a successful insurance claim.

In the event of a claim an employee must submit to their manager the following information:

- Full details of the circumstances giving rise to the claim
- A description of the property lost or damaged, including the total value.
- Jewellery and valuables which have been insured against ordinary risks may be included at the figures for which they have been insured.

Payment will be based on the estimated value of the property, not its new replacement cost.

## Polisi Eiddo Personol Cyflogeion y BBC

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth sy'n gymwys i gyflogeion y BBC yn y DU ar Raddau 2-11, ac mae'n ddatganiad y cytunwyd arno rhwng y BBC a'r undebau cydnabyddedig ar y cyd na ellir ei amrywio ond drwy negodi ar y cyd yn y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

## Diffiniad

Mae'r polisi hwn yn pennu o dan ba amgylchiadau y bydd y BBC yn digolledu cyflogai am golli, dwyn neu ddifrodi ei eiddo personol.

## Egwyddorion

- Mae cyflogeion yn gyfrifol am ofalu am eu heiddo personol a'i gadw'n ddiogel yn ystod eu cyflogaeth.
- Disgwylir i gyflogeion wneud eu trefniadau yswiriant eu hunain ar gyfer eu heiddo personol.
- Rhaid i gyflogeion gadw eiddo personol y deuir ag ef i safleoedd y BBC mewn lle diogel a chadarn. Lle mae cyfleusterau wedi'u darparu, rhaid cadw eiddo personol dan glo.
- Nid yw'r BBC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrodi ceir, beiciau modur, sgwteri neu feiciau (neu eu cynnwys) y deuir â nhw i safleoedd y BBC, pa un a ydynt yn cael eu gadael mewn meysydd parcio, mewn rheseli beiciau neu fel arall.
- Ni fydd y digollediad sydd wedi'i ddisgrifio yn yr amgylchiadau a bennwyd yn 1-6 isod yn fwy na £500 am un achos o golli, dwyn neu ddifrodi eiddo ac eithrio wrth deithio ar ddyletswydd gan aros dros nos lle bydd y terfyn yn £2000.
- Mae colli neu ddifrodi eiddo personol cyflogeion o ganlyniad i derfysg a chythrwfl sifil ar aseiniadau mewn gwledydd tramor yn dod o dan y darpariaethau ar wahân sydd yn y polisi hwn.
- Bydd y tâl am eitemau a gollwyd neu a ddifrodwyd wedi'i seilio ar amcangyfrif o werth yr eiddo, nid y gost am brynu eiddo newydd yn ei le.
- Ni fydd hawl gan gyflogai i gael ei ddigolledu o dan y polisi hwn os yw hawliad yn cael ei drafod o dan bolisi yswiriant personol.
- Bydd unrhyw dâl a roddir yn cael ei roi fel ffafr ac ni fydd yn dangos bod y BBC yn derbyn unrhyw atebolrwydd.

## Digolledu

Bydd y BBC yn digolledu cyflogai am eiddo personol sydd wedi'i golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi y mae'r cyflogai'n unig berchennog arno o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

### 1. Dwyn, bwrgleriaeth neu dân tra bo'r cyflogai ar ddyletswydd

Ar yr amod bod y cyflogai wedi cymryd camau digonol i ddiogelu'r eiddo. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys ym mhob rhan o'r byd.

### 2. Difrod o ganlyniad i ddamweiniau wrth gyflawni dyletswydd

Ar yr amod na fuasai modd osgoi'r difrod drwy gymryd gofal rhesymol gan y cyflogai a'i fod wedi'i achosi gan amgylchiadau a oedd yn amlwg yn eithriadol neu drwy esgeuluster ar ran y BBC. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys ym mhob rhan o'r byd.

### 3. Colled neu ddifrod sy'n digwydd yn ystafelloedd cysgu'r BBC

Ar yr amod na fu esgeuluster ar ran y cyflogai.

### 4. Eitemau sydd wedi'u dal mewn ystafelloedd cotiau swyddogol

Er nad yw'r BBC yn derbyn cyfrifoldeb am golli neu ddifrodi eitemau sydd wedi'u cadw mewn ystafelloedd cotiau swyddogol, bydd yn ystyried cais am ddigolledu sy'n codi o golled neu ddifrod o'r fath.

### 5. Offer gwaith

Bydd y BBC yn digolledu cyflogeion am golli neu ddifrodi unrhyw offer gwaith personol tra byddant ar un o safleoedd y BBC ar yr amod eu bod wedi'u storio'n briodol pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac nad oedd esgeuluster ar ran y cyflogai.

### 6. Eiddo a roddwyd ar fenthyg i'r BBC

Bydd y BBC yn digolledu cyflogeion am golli neu ddifrodi unrhyw eitemau sy'n eiddo personol iddynt a roddwyd ar fenthyg i'r BBC ar ôl gwneud cais ysgrifenedig ffurfiol gan y BBC.

## Hawlio

Mae'r cynllun hwn yn cael ei ariannu gan adrannau ac mae rheolwyr yn gyfrifol am awdurdodi hawliadau a wneir gan gyflogeion.

Dylai cyflogeion lenwi'r *Ffurflen hawlio am eiddo sydd wedi'i golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi* a'i chyflwyno i'w rheolwr.

Cyn cytuno i ddigolledu, dylai rheolwyr gael eu bodloni am y canlynol:

- Ei bod yn rhesymol bod yr eitem dan sylw gan y cyflogai yn y gwaith
- Bod y cyflogai wedi cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu'r eiddo
- Ei bod yn briodol i'r cyflogai wneud hawliad yn erbyn y BBC yn hytrach na'i bolisi yswiriant ei hun.

Wrth asesu digolledu, mae rheolwyr yn rhydd i ystyried esgeuluster cyfrannol.

## Colli neu ddifrodi eiddo personol o ganlyniad i derfysg a chythrwfl sifil ar aseiniadau mewn gwledydd tramor

Bydd y BBC yn digolledu cyflogeion am golli neu ddifrodi eiddo personol o ganlyniad uniongyrchol i derfysg a chythrwfl sifil tra byddant wedi'u haseinio i swydd y tu allan i'r DU, lle nad yw llywodraeth y wlad lle cafwyd y digwyddiad yn talu digolledu. Os bydd llywodraeth y wlad yn talu digolledu ond bod y swm yn llai na'r hyn y byddai'r BBC yn ei dalu, bydd y BBC yn talu'r gwahaniaeth rhwng y ddau swm.

Gellir cynnwys eiddo personol teulu'r cyflogai yn yr hawliad hefyd os talwyd am eu taith i'r wlad dan sylw gan y BBC a nwyddau i'r cartref os talwyd y gost am eu cludo gan y BBC. Gall hyn gynnwys car os yw'r BBC wedi penderfynu cynt fod car yn angenrheidiol ar gyfer swydd y cyflogai yn y wlad dan sylw.

Disgwylir i gyflogeion hawlio ar eu hyswiriant personol eu hunain gyntaf a bydd cymorth ariannol ar gael os nad yw cyflogeion wedi gallu cael yswiriant am gost resymol neu os yw gweithredu cymal eithrio mewn perthynas â therfysg a chythrwfl sifil yn eu hatal rhag gwneud hawliad yswiriant llwyddiannus.

Os gwneir hawliad, rhaid i'r cyflogai gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'w reolwr:

- Holl fanylion yr amgylchiadau a achosodd yr hawliad
- Disgrifiad o'r eiddo a gollwyd neu a ddifrodwyd, gan gynnwys cyfanswm ei werth.
- Gellir cynnwys gemau a phethau gwerthfawr a yswiriwyd rhag risgiau cyffredin ar y ffigurau y maent wedi'u hyswirio amdanynt.

Bydd y tâl wedi'i seilio ar amcangyfrif o werth yr eiddo, nad ar y gost am brynu eiddo newydd yn ei le.